

CYNGOR DINAS CAERDYDD  
SAFONAU'R IAITH GYMRAEG:  
**CANLLAW I DRYDYDD PARTIÖN**

THE CITY OF CARDIFF COUNCIL  
WELSH LANGUAGE STANDARDS:  
**GUIDE TO THIRD PARTIES**

Caerdydd

**Ddwyieithog**



**Bilingual**  
Cardiff



## CYFLWYNIAD

Ers 3 Mawrth 2016, mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswydd o dan Fesur y Gymraeg [Cymru] 2011, i gydymffurfio â 'Safonau'r Gymraeg', sy'n esbonio sut y dylent, fel sefydliadau, ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol.

**Mae'r safonau hyn yn gymwys i bob trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau neu'n cyflawni gweithgareddau ar ran awdurdod lleol.**

Mae safonau'r Gymraeg wedi'u drafftio gyda'r bwriad o:

- Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr y Gymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn Gymraeg
- Cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau iaith Gymraeg
- Ei gwneud yn glir i sefydliadau yr hyn sy'n rhaid iddynt ei wneud yn nhermau'r iaith Gymraeg
- Sicrhau bod graddau priodol o gysondeb yn nhermau'r dyletswyddau a roddir ar sefydliadau yn yr un sectorau.

Yn allweddol wrth ddarparu gwasanaethau yw mynd ati i gynnig dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth ac yna cofnodi'r dewis hwn.

## INTRODUCTION

Since 30th March 2016 Local Authorities in Wales have a statutory duty under the Welsh Language [Wales] Measure 2011 to comply with 'Welsh language standards' which explain how they as organisations should use the Welsh language in different situations.

**These standards are applicable to all third parties providing services or carrying out activities on behalf of a local authority.**

The Welsh language standards have been drafted with the aim of:

- Improving the services Welsh-speakers can expect to receive from organisations in Welsh
- Increasing the use people make of Welsh-language services
- Making it clear to organisations what they need to do in terms of the Welsh language
- Ensuring that there is an appropriate degree of consistency in terms of the duties placed on organisations in the same sectors.

The key when providing services is to actively offer a language choice to service users and then recording this choice.



## BETH SYDD ANGEN BOD YN DDWYIEITHOG?

Mae i ba raddau y disgwylir i drydydd partïon gydymffurfio â'r safonau a darparu gwasanaethau dwyieithog yn dibynnu ar y gwasanaeth maent yn ei ddarparu ar ran y Cyngor. Mae'n bosibl na fydd rhai o'r gofynion hyn yn berthnasol i'r gwasanaeth rydych wedi eich contractio i'w ddarparu ond bydd eraill yn gyffredin i bawb.

### GOHEBIAETH

Dylai'r rhain fod yn ddwyieithog bob tro, oni bai bod gennych gofnod o ddewis iaith y defnyddiwr gwasanaeth. Os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn cysylltu â chi yn Gymraeg, mae'n rhaid i chi ateb yn Gymraeg. Mewn gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gofyn am ymateb, mae'n rhaid i chi ddatgan (yn unol â safon 7) eich bod yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

### GALWADAU FFÔN

Dylech ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog (*Bore Da*, Good Morning / *Prynhawn Da*, Good Afternoon) ac os derbynnir galwad yn Gymraeg, dylech ei throsglwyddo i siaradwr y Gymraeg neu drefnu bod siaradwr y Gymraeg yn ffonio'r galwr yn ôl.

### CYFARFODYDD (NAD YDYNT YN AGORED I'R CYHOEDD)

Dylid gofyn i bob un a wahoddwyd sy'n bresennol beth yw ei ddewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) ac os gofynnir am hynny, dylid cynnal y cyfarfodydd hyn yn Gymraeg. Gellir trefnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd\* os nad oes gennych siaradwyr y Gymraeg ar gael.

### CYFARFODYDD (SY'N AGORED I'R CYHOEDD)

Sicrhewch eich bod yn datgan ar yr holl ddeunydd hysbysebu a'r gwahoddiadau bod croeso i unrhyw un fydd yn bresennol ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod. Os bydd unrhyw un yn rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno cyfrannu at y cyfarfod yn Gymraeg, mae'n rhaid i chi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd\* ar gael.

## WHAT NEEDS TO BE BILINGUAL?

The degree in which third parties are expected to comply with the standards and provide bilingual services depends on the service they are providing on behalf of the Council. Some of these requirements might not be relevant to the service which you are contracted to provide but others will be universal.

### CORRESPONDENCE

These should always be bilingual, unless you have a record of the service user's language preference. If a service user contacts you in Welsh you must reply in Welsh. In correspondence, publications and official notices that invites a response, you must state (in accordance with standard 7) that you welcome receiving correspondence in Welsh, that you will respond to correspondence in Welsh, and that corresponding in Welsh will not lead to delay.

### TELEPHONE CALLS

Please use a bilingual greeting (*Bore Da / Prynhawn Da*) and if a call is received in Welsh, please transfer it to a Welsh speaker or arrange a call back from a Welsh speaker.

### MEETINGS (NOT OPEN TO THE GENERAL PUBLIC)

All invited attendees should be asked their language choice (Welsh or English) and if requested these meetings should be conducted in Welsh. Simultaneous translation services\* can be arranged if you don't have Welsh speakers available.

### MEETINGS (OPEN TO THE PUBLIC)

Ensure that you state on all advertising material and invitations that anyone attending is welcome to use the Welsh language at the meeting. If anyone informs you that they wish to contribute to the meeting in Welsh, you must ensure that a simultaneous translation\* service is available.

---

*\*Golyga ‘cyfeithu ar y pryd’ gyfeithu o un iaith i iaith arall tra bod rhywun yn siarad, sy’n wahanol i ‘gyfeithu olynol’ lle mae’r cyfeithydd yn cynnig y cyfeithiad ar ôl i’r siaradwr ddweud cyfres o frawddegau. Drwy ddefnyddio offer cyfeithu, mae’n bosibl cyfeithu ar y pryd gyda’r siaradwr, sy’n golygu nad yw’r cyfarfod yn rhy hir.*

## DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS

Mae’n rhaid i unrhyw ddigwyddiadau sy’n perthyn i’r gwasanaethau rydych wedi’ch contractio iddynt sicrhau na chaiff yr iaith **Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na’r iaith Saesneg** yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bobl sy’n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad ac mewn perthynas â chyhoeddiadau clywedol a wneir yn y digwyddiad).

## ARWYDDION, HYSBYSIADAU A DEUNYDD ARDDANGOS

Dylai’r rhain fod yn ddwyieithog bob amser. Pan fyddwch yn codi arwydd/hysbysiad newydd neu’n adnewyddu arwydd/hysbysiad (gan gynnwys arwyddion dros dro) **mae’n rhaid gosod y testun Cymraeg fel y bydd yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf**. Arwyddion a hysbysiadau yw’r enghraifft fwyaf cyhoeddus o ddwyieithrwydd a cheir ymwybyddiaeth gyhoeddus uchel ynghylch yr agwedd hon ar y ddeddfwriaeth. Felly mae’n hanfodol y caiff arwyddion, hysbysiadau a deunydd arddangos eu cynhyrchu’n ddwyieithog.

## CYHOEDDUSRWYDD A HYSBYSEBU

Mae’n rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a hysbysebu fod yn ddwyieithog bob amser, gyda’r iaith Gymraeg heb ei thrin yn llai ffafriol na’r iaith Saesneg.

## DOGFENNAU

Mae angen i ddogfennau a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd fod yn ddwyieithog, gan gynnwys polisiau, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, hysbysiadau, codau ymarfer, papurau ymgynghori, trwyddedau, tystysgrifau, rheolau, llyfrynau, taflenni, pamffledi neu gardiau. Os byddwch yn llunio dogfennau Cymraeg/Saesneg ar wahân, dylech chi roi’r geiriad canlynol ar bob **dogfen Saesneg** y byddwch yn ei gyhoeddi.

This document is available in Welsh / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

*\* ‘Simultaneous translation’ means translating from one language to another as someone is speaking, which is different to ‘consecutive translation’ where the translator offers the translation after the speaker has spoken a series of sentences. By using translation equipment, it is possible to translate simultaneously with the speaker, which means that the meeting does not become too long.*

## PUBLIC EVENTS

Any events relating to the service which you are contracted to provide must ensure that the **Welsh language is treated no less favourably than the English language** at the event (for example, in relation to services offered to persons attending the event, in relation to signs displayed at the event and in relation to audio announcements made at the event).

## SIGNS, NOTICES & DISPLAY MATERIAL

These should always be bilingual. When you erect a new sign/notice or renew a sign/notice (including temporary signs) **the Welsh-language text must be positioned so that it is likely to be read first**. Signs and notices are the most public example of the bilingualism and there is high public awareness around this aspect of the legislation. Therefore it is essential that signs, notices and display material are produced bilingually.

## PUBLICITY AND ADVERTISING

Any publicity & advertising must always bilingual with the Welsh language not treated less favourably than the English language.

## DOCUMENTS

Documents published for the public need to be bilingual, including policies, strategies, annual reports, corporate plans, guidelines, notices, codes of practice; consultation papers, licences, certificates, rules, brochures, leaflets, pamphlets or cards. If producing separate Welsh/English documents, please state the following wording on all **English documents** that you publish.

This document is available in Welsh / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

---

---

## FFURFLENNI

Mae angen i bob ffurflen fod yn ddwyieithog. Os bydd angen llunio ffurflenni Cymraeg/Saesneg ar wahân, dylech ddefnyddio'r canlynol ar bob **ffurflen Saesneg** y cyhoeddir gennych.

This form is available in Welsh / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg.

## GWASANAETHAU DERBYNFA

Mae'n rhaid i bob derbynfa arddangos arwydd sy'n datgan (yn Gymraeg) bod croeso i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y dderbynfa. Hefyd, sicrhewch fod staff yn y dderbynfa a all ddarparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg yn gwisgo bathodyn i gyfleu hynny. Mae bathodynau a Phoster Corfforaethol ar gael gan Gyngor Caerdydd neu wefan Comisiynydd y Gymraeg.

## GWEFANNAU A GWASANAETHAU AR-LEIN

Mae'n rhaid i bob gwefan a gwasanaeth ar-lein fod yn hollol ddwyieithog ac mae'n rhaid peidio â thrin y fersiynau Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Yn hollol ddwyieithog gyda'r Gymraeg heb ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid i chi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).

## PEIRIANNAU HUNANWASANAETH

Mae'n rhaid i'r rhain fod yn hollol ddwyieithog ac yn gweithio'n iawn yn y ddwy iaith.

## CODI YMWHYBYDDIAETH AM WASANAETHAU YN GYMRAEG

Os ydych yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth rydych chi'n ei ddarparu yn Saesneg, mae'n rhaid i unrhyw gyhoedduwydd neu

## FORMS

All forms need to be bilingual. If it's necessary to produce separate Welsh/English forms, please use the following wording on all **English forms** that you publish.

This form is available in Welsh / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg.

## RECEPTION SERVICES

All receptions must display a sign in your reception which states (in Welsh) that persons are welcome to use the Welsh language at the reception. Also, ensure that staff at the reception who are able to provide a Welsh language reception service wear a badge to convey that. Badges and a Corporate Poster are available from Cardiff Council or the Welsh Language Commissioner's website.

## WEBSITES AND ON-LINE SERVICES

All websites and online services must be fully bilingual with the Welsh language versions not treated less favourably than the English.

## SOCIAL MEDIA

Fully bilingual with the Welsh language not treated less favourably than the English language. If a person contacts you by social media in Welsh, you must reply in Welsh (if an answer is required).

## SELF-SERVICE MACHINES

These must be fully bilingual & fully functioning in both languages.

## RAISING AWARENESS ABOUT WELSH LANGUAGE SERVICES

If you provide a service in Welsh that corresponds to a service you provide in English, any publicity or document that you produce, or website that you publish,

---

---

ddogfen rydych yn ei chynhyrchu, neu unrhyw wefan rydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg ddweud hefyd bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

### CYRSIAU HYFFORDDIANT ADDYSGOL

Os ydych chi'n cynnig cwrs addysgol sy'n agored i'r cyhoedd, mae'n rhaid i chi ei gynnig yn Gymraeg. Os ydych chi'n datblygu cwrs addysgol a gaiff ei gynnig i'r cyhoedd, mae'n rhaid i chi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; ac mae'n rhaid i chi sicrhau y caiff yr asesiad ei gyhoeddi ar eich gwefan.

### SYSTEMAU ANNERCH Y CYHOEDD

Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, **rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.**

### GWASANAETHAU RECRIWTIO / HYFFORDDI/CYFIEITHU

I gael rhagor o gyngor ar recriwtio staff sydd â sgiliau, cyfleoedd hyfforddi neu ddarparwyr cyfieithu yn y Gymraeg, cysylltwch â chomisiynydd yr iaith Gymraeg neu ewch i'w wefan. <http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/hafan.aspx>

### CAERDYDD DDWYIEITHOG

Gall Caerdydd ddwyieithog [caerdydd-ddwyieithog@caerdydd.gov.uk](mailto:caerdydd-ddwyieithog@caerdydd.gov.uk) ddarparu gwasanaethau cyfieithu i sefydliadau partner neu mae darparwyr masnachol eraill ar gael ledled Cymru. Codir tâl am y gwasanaethau hyn.

### CADW COFNODION

Dylech chi gadw cofnodion o:

- Nifer y cwynion rydych yn eu derbyn sy'n perthyn i'r iaith Gymraeg neu i safonau'r iaith Gymraeg

which refers to the English service must also state that a corresponding service is available in Welsh.

### EDUCATION TRAINING COURSES

If you offer an education course that is open to the public, you must offer it in Welsh. If you develop an education course that is to be offered to the public, you must assess the need for that course to be offered in Welsh; and you must ensure that the assessment is published on your website.

### PUBLIC ADDRESS SYSTEMS

When you announce a message over a public address system, you must make that announcement in Welsh and, if the announcement is made in Welsh and in English, **the announcement must be made in Welsh first.**

### RECRUITMENT / TRAINING / TRANSLATION SERVICES

For further advice on recruiting staff with Welsh language skills, training opportunities or translation providers, please contact the Welsh language commissioner or visit their website. <http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu/en/home/Pages/home.aspx>

### BILINGUAL CARDIFF

[BilingualCardiff@cardiff.gov.uk](mailto:BilingualCardiff@cardiff.gov.uk) can provide translation services to partner organisation or other commercial providers are available across Wales. These services are chargeable.

### KEEPING RECORDS

You should keep records of:

- The number of complaints you receive which relate to the Welsh language or Welsh language standards
-

## PAM RYDYM NI'N CYNNIG GWASANAETHAU YN GYMRAEG?

- Mae gan bob awdurdod lleol ac unrhyw sefydliadau sy'n ymgymryd â dyletswyddau ar eu rhan **ddyletswydd statudol** o dan Fesur yr Iaith Gymraeg 2011 i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.
- Gall Comisiynydd y Gymraeg godi dirwy o hyd at **£5000** ar Awdurdodau lleol am dorri safonau'r Gymraeg.
- Mae iaith yn chwarae **rhan hanfodol** wrth ddarparu gwasanaethau o safon yn ehangach. Mae'n debygol y bydd pobl yng Nghymru'n defnyddio'r gwasanaethau a gynigir gan eu Cyngor lleol lawer gwaith yn ystod eu bywydau, weithiau mewn **cyfnodau o angen, gwendid neu drallod**. Ar yr adegau anodd hyn mae'r gallu i gyfathrebu yn eich iaith fwyaf naturiol yn hanfodol bwysig.
- Mae'n bwysig ystyried iaith bob tro y bydd person yn defnyddio gwasanaethau ei Gyngor.
- Mae gan **16.2%** o boblogaeth Caerdydd un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (y gallu i ddarllen, ysgrifennu neu/a deall Cymraeg) ac mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi **dyblu** ers 1991.
- Mae iaith lawer mwy na chyfrwng cyfathrebu; mae'n gysylltiedig yn ei hanfod â hunaniaeth. Cafodd yr iaith Gymraeg ei gwahardd o swyddogaethau cyhoeddus am dros 400 o flynyddoedd a dim ond ers 1993 y mae gan y cyhoedd hawl i ddefnyddio'r iaith wrth ymdrin ag awdurdodau lleol.
- Mae llawer o siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn fwy cyfforddus wrth fynegi eu hunain yn Gymraeg yn hytrach nag yn Saesneg.
- Yn aml, bydd dewis iaith personol yn dibynnu ar y senario neu'r lleoliad - byddai rhai siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg gyda ffrindiau neu wrth ymateb i ymgynghoriad ond byddent yn dewis Saesneg wrth ymwneud â sefydliadau, er enghraifft.

## WHY DO WE OFFER SERVICES IN WELSH?

- All local authorities and any organisations undertaking duties on their behalf have a **statutory duty** under the Welsh Language [Wales] Measure 2011 to provide bilingual services.
- Local Authorities can be fined by the Welsh language commissioner up to **£5000** for breaching the Welsh language standards.
- Language plays a **crucial role** in the wider provision of quality services. People in Wales are likely to use the services offered by their local Council many times during their lives, sometimes at times of **need, weakness or adversity**. In these difficult times, being able to **communicate** in your most **natural language** is vitally important.
- It is important to consider language every time a person utilises their Council's services.
- In Cardiff **16.2%** have one or more skills in the Welsh language (ability to read, write or/and understand Welsh) & the number of Welsh speakers in Cardiff has **doubled** since 1991.
- Language is much more than a medium of communication; it is intrinsically linked with identity. The Welsh language was banned from public office for over 400 years and it's only since 1993 that the public had rights to use the language when dealing with local authorities.
- Many first language Welsh speakers are more comfortable expressing themselves in Welsh rather than in English.
- Personal language choice is often dependent on the scenario or setting – some Welsh speakers would speak Welsh with friends or responding to a consultation but would choose English when dealing with organisations for example.

**Dylai'r cyfrifoldeb dros gynnig gwasanaethau/gohebiaeth yn Gymraeg bob amser fod ar y sefydliad yn hytrach nag ar y Defnyddiwr Gwasanaeth unigol.**

**The onus for offering Welsh language services/correspondence should always be on the organisation rather than on the individual Service User.**

## **NODER:**

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r holl ofynion o dan safonau'r iaith Gymraeg. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am safonau'r iaith Gymraeg, neu i dderbyn copi llawn o'r safonau, ewch i:

- [www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog](http://www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog)  
neu cysylltwch â:
- [caerdydd-ddwyieithog@caerdydd.gov.uk](mailto:caerdydd-ddwyieithog@caerdydd.gov.uk)
- 02920 872527

## **PLEASE NOTE:**

This is not a comprehensive list of all requirements under the Welsh language standards. If you require any further information on the Welsh language standards, or to receive a full copy of the standards please visit:

- [www.cardiff.gov.uk/bilingualcardiff](http://www.cardiff.gov.uk/bilingualcardiff)  
or contact:
- [BilingualCardiff@Cardiff.gov.uk](mailto:BilingualCardiff@Cardiff.gov.uk)
- 02920 872527